

Cefnogi treftadaeth Gymreig yn yr Eisteddfod Genedlaethol

27/06/2025

Llythyr aroch mawr yn sillafu 'Eisteddfod' o flaen pabelli mewn cae

Yr haf hwn, fe aeth ein tîm yng Nghymru i Wrecsam i gysylltu â chymunedau a rhannu'r gwaith rydym ni'n ei gefnogi yn Yr Eisteddfod Genedlaethol.

Beth yw'r Eisteddfod?

Mae'n ?yl ddiwylliannol fwyaf Ewrop ac yn falch o fod yn unigryw Gymreig. Bob blwyddyn mae'n newid lleoliad wrth iddi ddathlu iaith, treftadaeth a thraddodiadau Cymreig.

Mae'r gair 'Eisteddfod' yn golygu 'lle eistedd' (seating place), ac un o fomentau mwyaf eiconig yr ?yl yw'r ddyfarnu blynyddol o'r Gadair farddol i fardd Gymraeg – traddodiad sy'n mynd yn ôl i'r 12fed ganrif.

Ond nid digwyddiad dros wythnos yn unig yw hi. Mae'r Eisteddfod yn dod â phobl at ei gilydd drwy gydol y flwyddyn drwy gerddoriaeth, barddoniaeth, celf a digwyddiadau cymunedol. Mae'n agored i bawb ac yn uno traddodiadau hynafol â diwylliant modern Cymru, o seremonïau'r 18fed ganrif i berfformiadau byw heddiw.

Dathlu hanes a diwylliant Cymru

Rydym ni'n falch o fod wedi cefnogi sawl prosiect sy'n gysylltiedig â'r Eisteddfod dros y blynyddoedd – o gyllido [pabell hanes lleol cyntaf](#) yr ?yl yn 2015 i [adnewyddu Yr Ysgwrn](#), cartref y bardd Hedd Wyn a enillodd Gadair y Prifardd ychydig wythnosau ar ôl ei farwolaeth yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Rydym hefyd wedi rhoi £900,030 i [Gastell Margam](#), a gynhelir Eisteddfod yr Urdd eleni. Bydd ein grant yn cefnogi adfer y plasty Gothig Tuduraidd, gwella ei chynaliadwyedd a hygyrchedd, a chreu manau cyhoeddus amlbwrpas newydd.

Pabell awyr agored sy'n cynnwys byrddau a baneri wedi'u brandio gyda Chronfa Treftadaeth
Ymunwch â ni am sgwrs am gyfleoedd ariannu yng Nghymru.

Cwrdd â thîm y Gronfa Treftadaeth

Eleni gwnaethom ymuno â'r Eisteddfod yn Wrecsam – ardal lle rydym wedi buddsoddi dros £21miliwn i helpu i gadw treftadaeth ddiwydiannol a morol, diogelu tirweddau a chefnogi diwylliant lleol a storiâu cymunedol.

Drwy gydol yr wythnos, fe wnaethon ni rannu'r cyfleoedd ariannu sydd ar gael, lledaenu'r gair am sut mae ein grantiau'n cefnogi prosiectau dwyieithog, a chysylltu â phrosiectau rydyn ni'n eu cefnogi a chyllidwyr eraill gan gynnwys:

- [Ymddiriedolaeth Treftadaeth Brymbo](#)
- [Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol](#)
- [Tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg](#)

- [Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Eglwysi](#)
- Theatr Avant CIC.

Efallai y bydd gennych chi ddiddordeb hefyd mewn ...

[Machine Shop at Brymbo](#)

[Gwaith haearn hanesyddol Brymbo am adrodd ei hen, hen hanes](#)

[Cap wedi'i frodio â'r ddraig goch a'r dyddiad 1910](#)

[Cap Billy Meredith o gêm Cymru yn erbyn Yr Alban ym 1910. Credyd: Amgueddfa Wreccsam.](#)

[Amgueddfa Dau Hanner: Wreccsam yn dathlu treftadaeth gymunedol a phêl-droed](#)

[Grŵp o bobl mewn siwtiau gwelededd uchel yn sefyll o amgylch bwrdd wedi'i drawsnewid o hen wagen reilffordd Taith y tu ôl i lenni Boston Lodge ar ei newydd wedd. Credyd: Chris Parry.](#)

[Sut mae gwirfoddolwyr yn pweru rheilffordd hanesyddol](#)